**Dyddiad: 17 Ebrill 2002**

# FFERMIO I'R DYFODOL: ADRODDIAD CYNNYDD

## Diben

1. Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch yr ymdrechion i gyflawni'r 52 pwynt gweithredu a nodwyd yn *Ffermio i'r Dyfodol: cyfeiriad newydd i ffermio yng Nghymru*.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r sefyllfa. Bydd adroddiad diweddaru pellach ar gael i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf.

## Cefndir

3. Cyhoeddwyd *Ffermio i'r Dyfodol: cyfeiriad newydd i ffermio yng Nghymru* ar 21 Tachwedd 2001. Mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd amaethyddiaeth Cymru yn y dyfodol. Wrth graidd y strategaeth y mae'r weledigaeth o ddiwydiant sy'n cynhyrchu cynnyrch brand o ansawdd a gwerth uchel; sy'n ymateb i anghenion y cwsmer; yn cydweithio ag eraill yn y gadwyn fwyd; yn gofalu am yr amgylchedd ac yn rhan bwysig o'r economi wledig ehangach.

4. Mae'r strategaeth yn cynnwys 52 pwynt gweithredu y mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid wedi ymrwymo i'w cyflawni.

## Datblygiadau hyd yn hyn

5. Mae Atodiad 1 yn nodi'r datblygiadau hyd yn hyn i gyflawni'r 52 pwynt gweithredu. Dylid nodi bod y strategaeth yn cefnogi gweithredu tymor hir er mwyn ailstrwythuro, arallgyfeirio, marchnata, datblygu sgiliau newydd a chwalu'r beichiau rheoliadol. Dyma grynodeb o'r sefyllfa fel ag y mae hi:

- Mae 49 neu 94% o'r mesurau wedi eu dechrau neu eu cwblhau. Mae hyn yn cynnwys 8 (15%) pwynt wedi'u cyflawni, a 41 (79%) pwynt pellach sydd ar y gweill neu sydd bron â'u cwblhau.

- Mae 3 (6%) heb eu dechrau eto.

**Lledaenu’r neges**

6. Pan lansiwyd *Ffermio i’r Dyfodol*, anfonwyd copi o’r Crynodeb Gweithredol at bob ffermwr yng Nghymru. Roedd rhifyn cyntaf Gwlad, cylchgrawn misol i ffermwyr a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad, hefyd yn trafod y strategaeth newydd. Mae Gwlad wedi parhau i ganolbwyntio ar y cyfeiriad newydd a’r dewisiadau sydd ar gael i helpu teuluoedd sy’n ffermio i symud i’r cyfeiriad newydd hwn.

7. Hefyd, ers lansio *Ffermio i’r Dyfodol*, mae prif rannau’r diwydiant yn cael eu hatgoffa’n gyson o brif negeseuon y strategaeth. Gwnaethpwyd hyn ar y lefel uchaf trwy gael Gweinidogion ac uwch-swyddogion i annerch fforymau diwydiant. Serch hynny, Cyswllt Ffermio yw’r prif ffordd o drosglwyddo negeseuon pwysig i’r gymuned ffermio, ac mae gwaith ar y gweill i wneud teuluoedd sy’n ffermio yn fwy ymwybodol o gynnwys *Ffermio i’r Dyfodol*, a’u helpu i addasu.

**Monitro**

8. Mae Paragraff 2.9 *Ffermio i’r Dyfodol* yn nodi dangosyddion mesuradwy a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd. Mae Atodiad 2 yn nodi ein barn ar y llinynnau mesur y gellid eu ddefnyddio. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau ei bod yn adlewyrchu data strategol ehangach, yn arbennig data ynghylch cynaliadwyedd, sy’n cael ei gasglu gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd. Bydd y llinynnau mesur yn cael eu caboli ymhellach wrth inni ddatblygu’n syniadau wrth drafod â’n partneriaid. Bydd mwy o fanylion ar gael yn yr adroddiad diweddaru nesaf ym mis Gorffennaf.

9. Bydd Grwp Ymgynghorol Dyfodol Ffermio yn ailgynnull yn yr Hydref i adolygu’r broses a rhoi cyngor ar ba waith y dylid ei wneud i sicrhau bod amaethyddiaeth yn cael ei llywio’n llwyddiannus i gyfeiriad newydd.

**Casgliad**

10. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’n sefyllfa bresennol o ran y 52 pwynt gweithredu. Rhaid i ni hefyd wneud mwy i sicrhau bod teuluoedd sy’n ffermio, fel grwp ac fel unigolyn, yn deall pa mor bwysig yw hi fod y diwydiant yng Nghymru yn addasu i gwrdd â her y dyfodol.

Cyswllt:

Hitesh Vadgama, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Est 5226